Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Crynodeb o astudiaethau COVID Hir ar agor i gyfranogwyr o Gymru

Awst 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Cynhaliwyd yr adolygiad gan Prifysgol Caerdydd**

## Cyfranwyr yr Adroddiad

*Tîm Adolygu*
Francesca Mazzazchi

*Tîm y Ganolfan Dystiolaeth*
Natalie Joseph-Williams, Alison Cooper, Ruth Lewis ac Adrian Edwards

*Partner Cyhoeddus*
Debs Smith ac Anthony Coper

**Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth:** Awst 2023

**Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi gan y Ganolfan Dystiolaeth**: Awst 2023

**Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel:** Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru _Crynodeb o astudiaethau COVID hir sy'n agored i gyfranogwyr o Gymru (PR0011) _Awst 2023

**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn, nid o reidrwydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

# Crynodeb o astudiaethau COVID Hir ar agor i gyfranogwyr o Gymru
# Rhif yr adroddiad – PR0011 (Awst 2023)

## CRYNODEB GWEITHREDOL


**Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**

Mae'r term 'COVID-hir' yn cyfeirio at y symptomau sy'n parhau neu'n datblygu o ganlyniad i haint COVID-19, wythnosau neu fisoedd ar ôl yr haint acíwt. Gall y symptomau hyn amrywio ar draws unigolion ac maen nhw wedi bod yn bwnc ymchwil cyffredin ledled y byd.

Yn 2021, cynhaliodd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) chwiliad o ymchwil weithredol a darpar ymchwil NIHR COVID Hir sy'n agored i gyfranogwyr o Gymru.

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr astudiaethau a amlygwyd yn yr adroddiad hwnnw yn ogystal â chwiliad wedi'i ddiweddaru o astudiaethau newydd.

**Methodoleg**

Cafodd y gwaith o ddiweddaru astudiaethau a nodwyd 2021 ei wneud drwy chwilio am dudalennau astudio pob astudiaeth. Os nad oedd tudalen astudio ar gael, neu ddim digon o fanylion, cysylltwyd ag arweinwyr prosiect trwy e-bost i ofyn am ddiweddariad.

Roedd nodi astudiaethau newydd yn cynnwys chwilio trwy gyrff ariannu perthnasol, elusennau a chofrestrfeydd astudio. Chwiliwyd cyfanswm o 11 o adnoddau. Chwiliwyd pob adnodd ym mis Gorffennaf 2023 ac roeddent yn cynnwys yr holl astudiaethau a agorodd rhwng 2021 a 2023. Cafodd astudiaethau eu sgrinio yn seiliedig ar deitlau, yna crynodeb. Archwiliwyd y rhai a allai fod yn berthnasol ymhellach trwy dudalennau astudio oedd ar gael neu drwy gysylltu ag arweinwyr prosiect drwy e-bost. Drwy hyn, nodwyd astudiaethau a oedd yn berthnasol i'r rhai sy'n byw gyda COVID Hir, sy'n dal i recriwtio ac yn agored i'r rhai sy'n byw yng Nghymru.

**Canfyddiadau Allweddol**

O'r astudiaethau a amlygwyd yn 2021, dim ond tri oedd ar agor i gyfranogwyr o Gymru adeg y chwiliad. Ar ben hynny, roedd disgwyl i un o'r rhain gau ddiwedd mis Gorffennaf 2023, ac mae disgwyl i un arall gau ddiwedd Awst 2023.

Nododd y chwiliad am astudiaethau ychwanegol 57 o astudiaethau posibl, ond ar ôl ymchwilio ymhellach, canfuwyd mai dim ond pump oedd yn berthnasol ac yn agored i gyfranogwyr o Gymru. Yn yr un modd â'r astudiaethau a amlygwyd yn 2021, dim ond un fydd yn aros ar agor ar ôl Awst 2023.

**Casgliadau a Photensial ar gyfer Ymchwil yn y Dyfodol**

Gyda dim ond pum astudiaeth yn cael eu nodi adeg y chwiliad hwn, mae'n amlwg bod diffyg ymchwil newydd neu gyfredol i COVID Hir yn cael ei gynnal yng Nghymru.

Roedd llawer o'r astudiaethau yn y DU a nodwyd yn y chwiliad hwn yn recriwtio cyfranogwyr o wasanaethau penodol lleol i'r ganolfan ymchwil a gynhaliodd yr astudiaeth. Fodd bynnag, yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth ar gyfer 'Rhaglen Adferiad COVID Hir', a fydd yn gweithio i gynyddu darpariaeth diagnosis, triniaeth,

cefnogaeth a gofal i'r rhai yng Nghymru sy'n dioddef o COVID Hir. Gallai hyn roi cyfle i fwy o astudiaethau yng Nghymru i COVID-hir.

Darllenwch yr adroddiad llawn

Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

**Cyfarwyddwyr:** Yr Athro Adrian Edwards

**Cyfarwyddwyr Cyswllt** Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis


@tystiolaethcym

healthandcareevidence@cardiff.ac.uk

www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy